# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC (3) 07-09)

**Dyddiad:** **10 Mawrth 2009**
**Amser :** **8.15am**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

**CYNNWYS**

---

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 10 Mawrth 2009. Roedd yr aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Mike German AC, Joyce Watson AC, Alun Davies AC a Mark Isherwood AC. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. Roedd Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a Carwyn Jones AC, y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar yr agenda: Ehangu'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth: ystyried y Mesur Atodiadau Ardrethi Busnes (Mesur Seneddol).

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

**Offerynnau drafft y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2**

**Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)**

**SLC252 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn gadarnhaol. Ni nodwyd y dyddiad gwneud. Ni nodwyd y dyddiad gosod. Ni nodwyd y dyddiad dod i rym.

Gohiriwyd y drafodaeth ar y Rheoliadau drafft hyn tan yr wythnos nesaf er mwyn caniatáu i'r Llywodraeth gwblhau'r cywiriadau a gafodd eu hargymell gan y cynghorwyr cyfreithiol. Argymhelliad y cynghorwyr cyfreithiol oedd y dylid tynnu'r Rheoliadau drafft yn ôl cyn gynted â phosibl gan fod y gwall yn y Rheoliadau drafft gwreiddiol yn fwy na gwall argraffu y gellir ei gywiro wrth gyhoeddi'r Rheoliadau. Gallai'r camddealltwriaeth hwn fod wedi arwain at amheuaeth o ran diwygio Rheoliadau 1989.

**Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC251 – Rheoliadau Cronfa Pysgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 23 Chwefror 2009. Fe'u gosodwyd ar 25 Chwefror 2009. Yn dod i rym ar 18 Mawrth 2009

**SLC253 - Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 26 Chwefror 2009. Fe'u gosodwyd ar 27 Chwefror 2009. Yn dod i rym ar 20 Mawrth 2009

**SLC254 - Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 26 Chwefror 2009. Fe'u gosodwyd ar 27 Chwefror 2009. Yn dod i rym ar 20 Mawrth 2009

Gohiriwyd y drafodaeth ar y Rheoliadau hyn tan yr wythnos nesaf tra disgwylir rhagor o ymholiadau ynghylch yr ohebiaeth yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth wreiddiol.

**SLC256 - Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Diwygio) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 26 Chwefror 2009. Fe'u gosodwyd ar 2 Mawrth 2009. Yn dod i rym ar 23 Mawrth 2009

**Unrhyw fater arall**

**Ystyried y Mesur Atodiadau Ardrethi Busnes (Mesur Seneddol)**

Yn unol â'i gylch gwaith o dan Reol Sefydlog 15.6(ii) craffodd y Pwyllgor ar y Mesur Atodiadau Ardrethi Busnes, gan gasglu tystiolaeth ar lafar gan Dr Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a Carwyn Jones AC, y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ. Rhoddwyd sylw arbennig i'r materion sy'n gysylltiedig â dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru a'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau. Cytunodd y Cwnsler Cyffredinol i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli 9 sy'n ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol ar ôl datganoli sy'n effeithio ar Gymru. Caiff adroddiad drafft ei ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol. Mae trawsgrifiad llawn o'r trafodion ar gael ar wefan y Pwyllgor.

**Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) – ystyried yr adroddiad drafft**

Ystyriodd y Pwyllgor y Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) yn ei gyfarfod ar 3 Chwefror 2009. Penderfynodd yr Aelodau, gan fod y Mesur arfaethedig ond yn cynnwys un ddarpariaeth wreiddiol a oedd yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru (adran 4(2) o'r Mesur arfaethedig), nad oedd yn hanfodol i Dr Dai Lloyd, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig, fod yn bresennol i roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor, a hynny ar yr amod ei fod yn esbonio ei safbwynt o ran y dewis o weithdrefn ar gyfer Gorchmynion a wneir o dan adran 4(2). Ysgrifennodd Dr Lloyd at y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r Aelodau nad oedd yn gwrthwynebu barn Llywodraeth y Cynulliad, sef y dylai fod yn fwy priodol i'r pŵer yn adran 4(2) i Weinidogion Cymru ddiwygio'r Atodlen i'r Mesur fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft. Caiff adroddiad y Pwyllgor ei osod gerbron y Cynulliad a'i anfon at y Pwyllgor ar y Mesur.

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**10 Mawrth 2009**